

Mae'n anodd i fod yn wyrdd!

Green support schools



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Highly effective schools

Track record in sustaining a high level of learner outcomes

Demonstrate resilience at all levels

Challenged to move towards or sustain excellence



Roedd Ysgol Gymraeg Casnewydd wedi cael ei bandio'n Ysgol werld gan Lywodraeth Cymru. Nol ym Mis Ionawr, wnaeth Llywodraeth Cymru rhyddhau bandiau lliw a'r gyfer ysgolion Conrad ar draws Cymru. Mae'r lliw yn cael ei ddewis gan Ymgynghorwyr Sialens a'r Awdurdod Lleol cyn cael ei roi i Lywodraeth Cymru. Mae'r bandiau lliw yn cael eu selio ar allu ysgol i godi a chynnal safonau a deilliannau dysgwyr yng nghyd a deall sut i wella a symud yr ysgol ymlaen

i'r cam nesaf. Allan o 1,332 o ysgolion cyntaf a haf odd eu hasesu, roedd 207 yn y categori cymorth gwrdd ac roedd 58 wedi cael ei rhoi yn y categori cymorth coch. Rydyn ni yn un o 20 ysgol yng Nghasnewydd sydd wedi derbyn y categori yma.

Dyweddodd y Gweinidog Addysg Huw Lewis ei fod yn amser i deffro i unrhywun oedd yn meddwl nad oedd e'n o ddifru am godi

safonau.

Dyma'r gofynion ar gyfer ysgolion gwyrdd. Mae rhain yn ysgolion effeithiol iawn sydd:

- Yn adnabod eu hun yn dda ac yn adnabod ac yn gweithredu eu blaenoriaethau ar gyfer gwella yn llwyddiannus.
- Ddangos gwytnwch ar bob level.
- Yn cael eu herio i symud tuag at neu i gynnal rhagoriaeth.
- Gyda'r gallu i arwain eraill yn effeithiol ac i gyfrannu tuag at gymorth ysgol i ysgol.

Rydyn ni yn barod yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion gwyrdd eraill yn yr GCA. (Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg i Dde Ddwyrain Cymru sydd yn cynnwys ysgolion o Gasnewydd, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chaerffili.) Rydyn ni'n hapus iawn i gael y clod am y gwaith caled sy'n digwydd yn yr ysgol.

Y Lindysyn Llwyglyd iawn

Meithrin

Rydyn ni wir wedi mwynhau darllen y Lindysyn Llwyglyd iawn a dysgu am gylch bwywyd y pili-pala. Rydym ni wedi creu lindysyn ein hyn allan o bocsys wyau, peintio pili-pala sy'n gymesur,, a chreu dawns lindysyn/pili-pala. Cawson ni hwyl yn rhoi cyfarwyddiadau i'r Bee-Bot i ddarganfod bwyd y lindysyn ac yn creu lindysyn allan o does. Rydym ni wedi bod yn arsylwi ac yn gwyllo ein lindys yn tyfu. Dydym ni ddim yn gallu aros tan eu bod nhw'n troi mewn i bili pala. Diolch o galon i Mrs Barton-Williams am brynu nhw i ni.



Bwystfilod Bendigedig

Derbyn

Cafodd Pili Pala a Jemeima Mop cymaint o hwyl yn darllen y llyfr 'Aaaa Corryn' ac rwy'n siwr fod pawb eisiau ffrind bach fel y corryn nawr. Fe creuon ni bwystfil allan o popoids, chwilio am gorrynod mewn sbageti, chwarae bingo buwch goch gota, arsylwi a thrafod trychfilod, ysgrifennu am y corryn, gwneud cwrs rhwystro a symud fel trychfilod, mewn parau creu bwystfil newydd yn y waun wyllt allan o gerrig, brigau a dail, chwarae gem Morus y mwydyn ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, ysgrifennu cliwiau i'n ffrindiau ddifalu pa drychfil oeddent a daeth Mili Malwen y falwoden Affricanaidd i ymweld a'r dosbarth.



Blaidd

Blwyddyn 1

Oeddech chi'n gwybod bod bleiddiaid yn medru nofio?

Yn ystod ein prosiect 'pethau byw' darllenon ni stori'r 'Tri Mochyn Bach!' Am fod y moch bach wedi adeiladu tai eu hun, penderfynon ni greu tai newydd. Wnaethon ni mwynhau torri, uno a pheintio'r tai a chyd-weithio'n wych mewn grwpiau. Yn ogystal, roedd yn rhaid i ni gwblhau nifer o weithgareddau hwylus eraill megis sioe bypedau, creu stori sain i adlewyrchu teimladau a phersonoliaeth y cymeriadau a'r gadair goch. Wnaethon ni hefyd ymchwilio i ffeithiau am fleiddiaid trwy ddefnyddio amryw o ffynonellau megis ipad's, gliniaduron a llyfrau.



Fan hyn a fan draw

Blwyddyn 2

Am 2:00 y.h ar Ddydd Gwener clywodd dosbarthiadau 2a a 2b yr alwad olaf i fynd ar yr awyren 9798 i Tsieina. Adeg pryderus oedd hi wrth bwysu'r bagiau rhag ofn iddynt fod yn rhy drwm i fynd ar yr awyren ond gan fod pawb wedi cofio eu tocynnau, pasbyrt a'u bagiau fe gychwynodd yr awyren yn llwyddiannus ac fe cafodd y plant gyfle i brynu byrbrydiau, sgwrsio a dynnu lluniau ar eu taith pell i Tsieina. Nawr ein bod wedi cyrraedd rydym ni'n gyffrous i ddysgu am draddodiadau'r wlad.



Rhufeiniaid Rhagorol!

Blwyddyn 3

Faint ydych chi'n gwybod am Y Rhufeiniaid?

Ym mlwyddyn 3 rydyn ni wedi bod yn dysgu llawer amdanynt. Cawson ni ddiwrnod Rufeinig yn yr ysgol ac roedd pawb wedi gwisgo i fyny, wedi cael siawns i arddio a choginio. Am hwyl a sbri! Hefyd aethon ni ar drip i Gaerllion i ddysgu ac i weld mwy. Dysgon ni lawer o ffeithiau newydd am y Rhufeiniaid er enghraifft ble roeddwn nhw'n byw, ble aethon nhw i'r ysgol, beth roeddwn nhw'n bwyta a beth wnaethon nhw adeiladu. Dyma rhai o 3A a 3B wedi gwisgo fel y Rhufeiniaid.



Stiwardiaid Seimllyd

Blwyddyn 4

Dysgon ni am gyfnod hanes ych-a-fi! - Y Stiwardiaid. Edrychon ni ar Bla Mawr Llundain a chreu bagiau perlysiâu i gadw'r pla i ffwrdd. Darllenon ni am Barti Ddu - Bartholomew Roberts - y môr-leidr mwyaf llwyddiannus erioed ac fe ddaeth o Gymru! Darllenon ni am Syr Harri Morgan hefyd. Roedd William Shakespeare yn bwnc ddiddorol - astudion ni y gwrachod o Macbeth ac fe gawson ni'r cyfle i fod yn wrach 'Double Double Toil and Trouble!'. Roedd Tân Mawr Llundain yn daith arbennig ble action ni rhai o'r golygfeydd arswydus.



Arweinwyr Anhygoel

Blwyddyn 6

Rydyn ni ym Mlwyddyn 6 wedi bod yn dysgu am arweinwyr anhygoel ledled y byd. Dysgon ni am fywydau a gweithredoedd pobl oedd ac sydd wedi ceisio newid y byd a sefyll yn gadarn yn erbyn anghyfiawnder. Rhai o'r unigolion yr ydyn ni wedi dysgu amdanynt yw Nelson Mandela, Rosa Parks, Martin Luther King a Malala Yousfzai. Dysgon ni am bobl sydd yn ysbrydoliaeth i eraill. Oeddech chi'n gwybod cafodd Malala Yousfzai ei saethu yn y pen achos ei bod eisiau mynd i'r ysgol? Neu bod Nelson Mandela wedi treulio 27 mlynedd yn y carchar achos ei fod yn ddu ac yn siarad yn erbyn y drefn apartheid yn y wlad? Roedd y pobl yma yn gymaint o ysbrydoliaeth i ni fel ein bod wedi penderfynu i siarad am ein harwyr yn ystod yn ein hareithiau ar gyfer asesiadau llafar. Fe wnaethon ni hyd yn oed ysgrifennu llythyron at Malala Yousfzai yn dweud wrthi pan ei bod yn gymaint o ysbrydoliaeth i ni.



Archarwr Arbennig

Blwyddyn 5

Ai adar? Ai awyren? Na...
Mae'n ein archarwr blwyddyn 5!

Y tymor yma, rydyn wedi bod yn dysgu sut i fod yn archarwr gwych. Rydyn ni wedi cynllunio ein archarwr arbennig ein hunain ac wedi gwisgo i fyny ar gyfer y diwrnod gan greu cymeriadau unigryw a chlyfar fel Neon Ninja, Captain Craft a Electro Girl.

Yn ogystal â chael hwyl yn gwisgo eu gwisgoedd arbennig, mae'r plant yn mwynhau dysgu am y dihiryn drwg Spring Heeled Jack sydd yn ffugio bod yn archarwr. Roedd yn bodoli yng nghyfnod Fictoria a threuliodd ei nosweithiau yn dwyn lleisiau plant drwg. Teimlai ein archarwr roedd angen diogelu'r Gymdeithas o Archarwr gan greu rheolau pwysig.

Aethon ni ati i greu Côt Ymddygiad i ddangos i Spring Heeled Jack sut y dylai Archarwr ymddwyn. Roedd ein rheolau yn gadarn ac yn ddiymwad, nawr gallwn gysgu yn dawel gan wybod fod lleisiau plant yn ddiogel am byth oddi wrth y dihiryn drwg Spring Heeled Jack.





Carn Celf!

Mae'r disgyblion Mwy abl a Thalentog o ran Celf wedi bod yn brysur yn paratoi r gyfer cystadleuthau'r Eisteddfod. Maent yn creu darnau o waith yn seiliedig ar y testun 'tyfu a Ffynu'. Mae rhieni, staff a disgyblion wedi bod yn cynllunio, creu, paentio, gwnïo a llawer mwy. Pob lwc i bawb yn y cystadleuaeth sydd i ddod. Diolch i bawb sydd wedi helpu: Miss Leyshon, Miss Davies Y4, Mrs Davies Y6, Miss Thomas Y6, Mrs Phillips, Miss Cutts, Miss Williams Reception, Miss Harding, Mrs Thomas Y3, Mrs Law, Miss Davies Y2, Mrs Morgan, Mrs Evans Nursery, Ms Beth Davies, Mrs Rachel Morgan, Mrs Fulton, Miss Rachel McDonald, Mrs Marshall, Mrs Fettis, Mrs Adllam, Mrs Hobbis and Mrs Mandy Evans. Wow! Dyna gymaint o bobl oedd eisiau rhoi eu hamser i wirfoddoli a'u harbenigedd.



Eisteddfod



Pob lwc i Freya Barrett o Flwyddyn 4 a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn y Genedlaethol yng nghystadleuaeth Unawd Blwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili yn ystod gwyliau hanner tymor. DIOLCH enfawr i'r plant ac aelodau staff a wnaeth hyfforddi yn ystod amser egwyl, amser cinio, ac ar ôl ysgol am nifer o wythnosau. Y grŵp dawnsio disgo ac unigol : the disco dancing group and solo with Miss Davies Year 2 and Miss Williams Reception; sketch acting with Miss Davies Year2; the soprano choir with Miss Leyshon; the duets with Mrs Parry; the solo singers with Miss Cutts, Miss Williams of Year1, Mrs Davies of Year 6 and Miss Leyshon; the recital group with Mrs Ridley; the solo recitals with Miss Davies Year4, Mrs Thomas Year 3, Mrs Ridley Year 2 and Miss Cutts. A big thank you also to parents for bringing the children to compete and to Mopsy - Lola's gran - who has been playing the piano in practice sessions and at the Regional and County Eisteddfods.



Cwis Lyfrau yn LlyfyrgeUll Ringland

Roedd cwis lyfrau yn llyfyrgeUll Ringland ar ddiwrnod y llyfr. Cymerodd plant Bl 6 rhan mewn timau gwahanol. Y tîm buddugol oedd Aimee Duff, Emily Stokes-Tyler, Cai Hobbis ac Evie Campbell. Llongyfarchiadau mawr i chi!

Buddsoddwyr Mewn Teuluoedd

Ar Ebrill yr 22ain daeth aseswyr i'r ysgol i asesu'r ysgol am gymhwyster 'Buddsoddwyr mewn teuluoedd.' Roedd yr ysgol yn llwyddiannus i ennill y cymhwyster yma ac yn ddiolchgar i bawb wnaeth dychwelyd yr holiaduron aeth allan i rieni.

Presenoldeb Gwych!

Dyma'r plant yn cael eu tystysgrifau am bresenoldeb 100% y tymor hyn. Roedd yna hefyd tystysgrifau am y disgyblion eodd wedi gwella eu presenoldeb yn sylweddol. Da iawn i bawb!



Eisteddfod

Cawson ni eisteddfod ysgol gyffrous iawn blwyddyn yma gyda plant yr ysgol yn cystadlu yn eu llysoedd. Daeth Mr Richards o Ysgol Gyfun Gwynllyw i feirniadu y gystadleuaeth y gadair. Brooke Young enillodd gyda Maisey Evans yn agos iawn yn yr 2il safle a Aimee Duff a Megan Hancock yn gydradd 3ydd.



Penblwydd Arbennig

Roedd e'n benblwydd arbennig i ffrind da yr ysgol mis ddiwethaf. Dathlodd Mr Comfort ein 'Garddwr Gwych' ei benblwydd yn 80 a chynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddatlu. Rydyn ni'n lwcus iawn i gael Mr Comfort i'n lwcus iawn i gael Mr Comfort i'n helpu edrych ar ôl ein gerddi ac yn ddiolchgar iawn iddo am ei waith caled.



Diwrnod eDdiogelwch

Cynhaliwyd diwrnod eddiogelwch ar y 10fed o Chwefror. Cymerodd y disgyblion rhan mewn nifer o weithgareddau megis dysgu cân Smartie y pengwin a gwneud addewid eddiogelwch. Daeth PC Thomas i fewn i siarad am faterion eddiogelwch gyda'r plant a gwaith cartref yr wythnos oedd i ddylunio poster 'Sut i gadw'n ddiogel ar lein.' Enillwyr y gystadleuaeth oedd 1af-Carys Sims. 2il Eleri Marshall and 3ydd Fergus Fulton. Da iawn i bawb a wnaeth gystadlu!



Diwrnod y Llyfr

Unwaith eto roedd ein hysgol yn llawn Elsas ac Annas, Twits, Wonkas, hobbits a dewinod i ddatlu darllen a llyfrau. Cawsom lawer o hwyl wrth ddyfalu pwy oedd pwy!



Diwrnod Trwyn Coch

Ym Mis Mawrth cawson ni ddydd Gwener o hwyl yn gwisgo mewn dillad a trwynau coch i godi arian i Comic Relief. Codwyd £270.77 i'r elusen. Da iawn pawb!



Parti Pasg

Trefnwyd Parti Pasg llwyddiannus arall gan y PTA ac roedd yr haul yn gwenu. Daeth llawer o blant a'u hetiau pasg gwych ac roedd ymweliad annisgwyl gan Sali Mali hefyd. Diolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rieni am drefnu diawvddiad awych arall i'r plant.



Cornel y Campau



Dreigiau Anhygoel

Mae clwb y ddraig wedi bod yn lwyddiant unwaith eto gyda mwy a mwy o blant yn ymuno gyda ni. Fe wnaeth y plant wneud cynydd sylweddol o gynnydd yn eu sgiliau pasio a derbyn pêl droed. Dewch i ymuno gyda ni.



Athletwyr Arbennig

Mae'r plant wedi bod yn cael llawer o hwyl yn yr haul yn ymarfer eu sgiliau rhedeg, neidio a thafllu. Mae nhw yn edrych ymlaen at ddangos eu sgiliau y.

Daeth Mrs Parry, Miss Catrin Evans (Dirpwry Bennaeth Ysgol Cwmbbran) a Mrs Liz Jones, ein Arweinydd System i'r EAS at ei gilydd i edrych ar lyfrau ein hysgol yn ddiweddar. **Nodwyd bod marcio ac ymateb i waith y plant yn rhagorol ac yn arfer gwerth ei rhannu (gyda ysgolion eraill.) Mae safonau'r llyfrau yn rhagorol ac yn arfer gwerth ei rhannu (gyda ysgolion eraill.) Mae cyfleoedd i'r medrus a thalentog yn effeithiol iawn ac wedi'u cynllunio'n wych ar draws y cwricwlwm ym mhob dosbarth.**

Os hoffech ddarllen yr adroddiad llawn, mae ar ein wefan o dan y teitl 'Crffu ar lyfrau 2014'. Yn ogystal â hyn, fe gyflwynodd Mrs Helen Phillips gwrs hyfforddi i athrawon ysgolion eraill yn yr EAS i ddangos arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd yr ymateb i'r cwrs yn bositif iawn.

Gwyliau'r Pasg

Gwybodaeth i chi. Mae gan Magor Marsh nifer o weithgareddau yn ystod y gwyliau Pasg. There is a **Spring Fun Day** on Saturday 12th April 1 - 4 pm (£1 per child, adults are free) that includes a water vole trail, pond dipping, bird watching and a guided walk as well as crafts and using a microscope.

Wildplay Thursday 17th April 10 - 3pm - a holiday club with a difference for children aged 8 and over. Games, crafts, outdoor exploration and wildlife investigation (booking is essential) (£15 per child) Phone Leigh on 01600 740358 to book.

Wildlife Warriors - for ages 10 and over - starting on Wednesday April 30th 6:30 - 8:30 it will run every week during term time until October half term. (£12 per half term or £10 for Gwent Wildlife Trust members) Please phone Kathy on 01633 889048 or e-mail her at magormarsh@gwentwildlife.org for more information.

Unwaith eto, diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu haelioni yn ariannu'r cylchlythyr hwn ac am drefnu nifer o weithgareddau yn ystod y tymor. Os fyddai unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, mae'r ffurflenni ymaelodi ar gael yn y swyddfa.